

ADNABOD EIN GILYDD

Gan mai'r gyfrol bwysicaf i'w chyhoeddi yn ystod y blynyddoedd diwethaf yma yw *Geiriadur yr Academi*, neu *The Welsh Academy English-Welsh Dictionary* i roi ei theitl swyddogol iddi, dan olygyddiaeth y Dr BRUCE GRIFFITHS, wedi'i gynorthwyo gan Dafydd Glyn Jones, tybiodd Huw Ceiriog Jones y byddai darllenwyr *Y Casglwr* yn hoffi gwybod mwy am Dr Griffiths.

H.C.J.: A oedd llyfrau'n bwysig yn y cartref?

B.G.: Go brin. Yn blentyn bach mi dreuliais flynnyddoedd y rhyfel mewn carafan ar fferm yng nghefn gwlad Warwickshire, lle gweithiai fy nhad mewn gwaith alwminiwm. Nid oedd lle i lyfrau nac arian i'w prynu. Mi ddysgais ddarllen (Saesneg yn unig) gan fy mam, a buan y byddwn (yn rhyw bedair oed) yn sillafu fy ffordd drwy gartwnau'r *Daily Mirror*. Cydiodd ysfa darllen ynof yn gynnar iawn. Yn ôl yn y Blaenau ar ôl y rhyfel, yr unig lyfrau oedd cypyrddaid o hen lyfrau ysgol ar ôl ewythr imi, ar bynciau sych ac annealladwy fel daeareg a ffiseg, a llyfrau gwobrau a theitlau megis *With the Union Jack to Rumbabaland*.

Ni ddarllenai fy mam fawr ond nofelau ditectif. A dweud y gwir, dyna'r unig nofelau bron y byddaf innau'n hoffi eu darllen, ar wahân i awduron fel P. G. Wodehouse, Dorothy L. Sayers, M. R. James, Arthur Ransome, Richmal Crompton (awdur llyfrau William) a'r Capten W. E. Johns (Biggles, Worrals, ayb). Prin y ceid unrhyw lyfr Cymraeg acw. Cawn ambell un gan fy nain, pethau diflas, megis *Prifffordd y Gymraeg* a *Ein hen, hen hanes*. Cofiaf imi ddarllen *Hunangofiant Tomi Tegla* gydag afiaith, ac yn yr ysgol cefais flas anarferol ar lyfr o'r enw *Nic Oedd, Nic Fydd* gan W. E. Thomas. Ni chefais fawr o flas ar wneud Cymraeg yn yr ysgol, a Ffrangeg, Lladin, Groeg a Saesneg a'm swynai. Ni welai fy rhieni na fawr neb arall unrhyw werth yn y Gymraeg. Darllen lyfr yr Urdd, *Newydd a Hen*, a chwarae rhan fechan mewn cynhyrchiad ysgol o *Lywelyn Fawr* Thomas Parry a ddeffrôdd ynof ryw faint o ddiddordeb yn y Gymraeg, a'm troi yn fwyfwy o gasglwr llyfrau.

H.C.J.: A ystyrioch eich hunan yn gasglwr llyfrau yn ogystal â chasglwr geiriau?

B.G.: Mewn ffair sborion mi ddois ar draws dau neu dri llyfr a gyhoeddwyd yn y Blaenau, un ohonynt a'i glawr wedi ddylunio gan Kelt Edwards, a byth oddi ar hynny mi fûm yn casglu popeth sydd a wnelo â'r Blaenau a'r cyffiniau.

Yr oedd fy nain yn llengar ac yn hoff o ddarllen llyfrau, er nad mor hoff o'u prynu. Fe soniai hi lawer am hanes a llen gwerin yr ardal a'r genedl; roedd hi wedi bod yn athrawes yng Ngheredigion adeg y rhyfel, ac felly fe soniai hi rywfaint am dafodiaith y sir honno ac am 30



eiriau a phriod-ddulliau ardaloedd eraill megis Caernarfon; hi fyddai'n dehongli ffurfiau fel *wmad, co bach, hen fodan*, ac ati, a glywem yn y rhaglen 'Noson Lawen'. Mi ddarllenais *Atgofion am Gaernarfon* T. Hudson-Williams; mae ynddo bennod ar 'Iaith y Dref' a feginodd fy niddordeb yng ngeirfa tafodieithoedd; mi es ati i gasglu geiriau ac ymadroddion Stiniogaidd, pethau fel *prin fel chwys fforddolwr; main fel llynyn trôns; 'sgwyddau fel potel sôs*, ac ati. (Gweler fy narlith *Pennau Llifiau, Pennau Cwân* (Gwasanaeth Llyfrau Gwynedd, 1984).

Fel myfyriwr yng Ngholeg Iesu bu gennyf fwy o fodd i brynu llyfrau. Yn ystod y gwyliau byddwn yn mynd ar y trên a'r bys i siop Arianwen Parry yn Llanrwst, i siop J. R. Morris (siop Eric Jones wedyn) yng Nghaernarfon, ac i hen farchnad Bangor.

Cefais sawl peth prin, e.e. yr unig gopi mewn bodolaeth (am a wn i) o ddrama gyntaf Kate Roberts, *Y Botel; Gwaed yr Uchelwyr*, Saunders Lewis; *Yr Argae*, Caradog Prichard; *Offrymau Neillduaeth*, Daniel Owen; *Y Ddinas*, T. H. Parry-Williams; pedair o daflenni Gwasg y Gaseg; *The Stones of the Field*, R. S. Thomas, ayb. Yn yr ugeinfed ganrif y mae'r eitemau prin, coeliwch chi fi, a hynny ymhlith y mân bamffledi.

Er tyngu y rhoddfa y gorau i brynu llyfrau, anodd maddau iddynt er hynny. Os af i dref neu bentref dieithr, ni fyddaf yn fodlon oni cheir yni siop lyfrau ail-law. Daw rhywbeth diddorol i'r fei o hyd. Y fargen orau a gefais? Talu chwe hen geiniog yn Siop Beti Rhys yng Nghaerdydd am gopi o *Curious Myths of the*

Middle Ages, S. Baring-Gould, ag ymylon aur ag arnynt baentiad cywrair iawn. Tueddaf i brynu unrhyw lyfr yn ymwneud â chamlesi neu fordeithio ar hyd afonydd; neu unrhyw lyfr sy'n sôn am arferion rhyfedd, am fwganod, am lèn gwerin, rhyfeddodau natur, ffenomenau anesboniadwy, dirgelion hanesyddol; ychydig onid dim a geir yn y Gymraeg am y rhain; hefyd y chwedl Arthuraidd; hanes Cymru; ac wrth gwrs mae gennyf lyfrgell sylweddol iawn ar iaith, llen a hanes Ffrainc. Fy margin ddiweddaraf: 50c ym marchnad Aberystwyth am *Historical Ninepins: A Book of Curiosities*, John Timbs; copi carpiog y cefais ei ailwymo bron fel newydd.

H.C.J.: Sut yr aeth darlithydd Ffrangeg yn eiriadurwr Cymraeg?

B.G.: Ar un adeg, bûm yn brysur yn cyfieithu o'r Ffrangeg i'r Gymraeg (*Y Dieithryn*, Camus; *Y Claf Diglefyd*, Molière; *Yr Argae*, Bordeaux) ac yn golygu Cyfres yr Academi o gyfieithiadau. Bryd hynny mi ddeuthum yn fwy ymwybodol nag erioed o wendidau'r geiriaduron Saesneg-Cymraeg a oedd ar gael. O du'r Saesneg nid oeddynt yn cynnwys ymadroddion, cymariaethau, priod-ddulliau, diarhebbion; ac o du'r Gymraeg, yr oedd llu o eiriau llafar, cyfarwydd i mi, nas ceid ynddynt, pethau fel *mopan, hulpyn, jolpan, crawiau, luro, strach, stryffig*. Teimlais i a'm cyfaill Dafydd Glyn Jones fod angen geiriadur mwy cynhwysfawr, un y gellid ei gymharu'n deg â rhai hyn megis geiriadur Silvan Evans (1852) neu un rhagorol John Walters (1795) a oedd gymaint yn fwy cynhwysfawr na dim a oedd ar gael yn 1975. Cyflwynasom femorandwm i'r perwyl i'r

Academi; derbyniwyd ef, a chafwyd nawdd Cyngor y Celfyddydau. Gwahoddwyd fi i fod yn olygydd, gyda chymorth cynorthwy-ydd llawn-amser. Bûm mor ffôl â derbyn, gan feddwl y golygai hynny olygu rhannau o'r testun a baratoid gan aelodau eraill yr Academi. Ond nid felly bu, a bu'n rhaid i mi fy hun a Dafydd Glyn wneud llawer o'r ymchwil ac o gyfansoddi'r testun, heb sôn am olygu pob rhan o'r testun ryw chwe gwaith i gyd erbyn y diwedd. Nid oedd gennyf gymwysterau ffurfiol o fath yn y byd, ond hyn: ar ôl oes o ddyysg Ffrangeg i eraill, mi wn i'r dim beth y dylai geiriadur fod; a mi wn, os oedd modd camddeall geiriadur o gwbl, fe'i camddeallir yn ddi-ffael. Ni ellir bod yn rhy fanwl eglur. Fy nghymhwyster arall, rwy'n meddwl: dycnwch, y penderfyniad na fyddwn yn gadael i'r gwaith fy llethu na'm trechu, ac na fyddwn yn gadael i unrhyw air nac ymadrodd fy nhrechu. Gallai dod o hyd i'r gair neu'r ymadrodd Cymraeg yr oedd ei angen olygu oriau o chwilota.

H.C.J.: Y cam nesaf?

B.G.: Holodd sawl un eisoes a wyf am gychwyn ar ryw lyfr mawr arall gan dybio fod llunio geiriadur yn fy ngwaed a'i fod yn rhyw fath o bleser. Nid plaser mohono; fe synnech petawn yn enwi'r llenorion a'r ysgolheigion tra amlwg a wrthododd gyfrannu'r un iod i waith y geiriadur, gan eu bod yn gallach na mi. Ar ôl rhoi traean o f'oes i'r geiriadur, yn ddigyflog a thra'n dal i gynnal fy swydd fel darlithydd Ffrangeg, fy nheimlad ar hyn o bryd yw mai'r cam nesaf fydd ymddeol i iot mewn harbwyr yn ne Ffrainc, gan ffonio'r Wasg i holi am freindal bob hyn a hyn. Oherwydd gwastraffu amser ar y geiriadur, fe aeth yn rhy hwyr i fynd fawr ymhellach yn fy mhriod faes, Ffrangeg, ac yn ôl rheolau'r system academaidd fel y mae, ni ellir ystyried y geiriadur fel cyfraniad i wybodaeth o gwbl; nid yw'n cyfrif fel ymchwil, ac mae'r pwysau arnaf i gyhoeddi ymchwil yn y maes Ffrangeg. A rhaid dweud fy mod yn dra siomedig gan y derbyniad a gafodd y Geiriadur pan ymddangosodd o'r Wasg — dim sylw o gwbl neu achwynion pitw. Hyd yn hyn, ni chawsom hyd yn oed adolygiad yn *Talesin*, cylchgrawn yr Academi ei hun.

Amser a ddengys a fydd galw am eiriadur Cymraeg-Saesneg, sef troi hwn o chwith. Ni ddylai neb dybio mai peth hawdd fyddai hynny, neu'n rhywbeth y